



# Tasg Hawliau'r Haf - Haf o Hwyl




Eich Tasg Hawliau y tymor yma yw cynllunio gweithgaredd Haf o Hwyl ar gyfer eich ysgol.



Mae Haf o Hwyl yn golygu mwynhau.



Gallech chi drefnu gweithgaredd bach neu ddiwrnod cyfan o hwyl. Does dim rhaid i'r gweithgaredd gostio llawer o arian.




Bydd angen i chi weithio gyda'ch athro i feddwl beth fyddai'n gweithio orau i'ch ysgol chi.



Yn y dasg hon byddwch chi'n meddwl am lawer o wahanol hawliau plant:




**Erthygl 2** – Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn



**Erthygl 12** – Mae gen i hawl i gael gwrandawriad, ac i gael fy nghymryd o ddifri



**Erthygl 15** – Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau



**Erthygl 29** – Mae gen i hawl i fod y gorau galla i fod



**Erthygl 31** – Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae

## Cyn i chi ddechrau cynllunio:

Gwylwch y **fideo yma gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru**, i ddysgu mwy am yr Haf o Hwyl.

Rydyn ni wedi creu pecyn gweithgaredd i'ch helpu i gynllunio'ch digwyddiad Haf o Hwyl.

Gallech chi weithio gyda'ch Cyngor Ysgol ar y dasg yma.

Mae **3 rhan** i'r pecyn gweithgaredd:


Rhan 1: Casglu Syniadau Pawb

Rhan 2: Cynllunio


Rhan 3: Cynnal eich Digwyddiad Haf o Hwyl



## Rhan 1: Casglu Syniadau Pawb



Ar ôl gwyllo fideo Sally Holland, mae'n siŵr bod gennych chi lwyth o syniadau gwych.



Gweithiwch gyda'ch athro i ddewis 4 gweithgaredd gwahanol.



Gofynnwch i bob dosbarth bleidleisio a dewis eu hoff weithgaredd.





Rydyn ni wedi creu cynllun gwers i'ch athrawon ddefnyddio.




# Dewisiadau gorau ein hysgol ni

Defnyddiwch y daflen yma i gadw cofnod o bleidleisiau pob dosbarth

 Gweithgaredd	123 <b>y</b>  Nifer y pleidleisiau



## Rhan 2: Cynllunio



Nawr bod gennych chi ddewisiadau pob dosbarth, mae'n bryd gweithio allan beth yw'r hoff ddewisiadau a'u cyflwyno i'ch athro.



Defnyddiwch y daflen hoff ddewisiadau i'ch helpu i weld beth oedd pleidleisiau pawb wrth ddewis gweithgareddau.

Dyma rai syniadau ar gyfer sut gallwch chi rannu'r hoff ddewisiadau:


- Paratoi PowerPoint
- Syniad 2 funud – dyma lle rydych chi'n cyflwyno eich syniadau mewn llai na 2 funud.

Bydd eich athro yn gallu eich helpu i sicrhau bod y gweithgareddau'n gallu digwydd yn yr ysgol, ac yn eich helpu i gysylltu ag unrhyw un angenrheidiol.

**Defnyddiwch ein taflen gynllunio** i'ch helpu i feddwl am y manylion terfynol.



## Rhan 3: Cynnal eich digwyddiad Haf o Hwyl




Rydych chi wedi gwneud yr holl waith caled, a chynllunio digwyddiad fydd yn llawer o hwyl. Rydyn ni'n gobeithio byddwch chi'n mwynhau.

### Cofiwch


Rhannwch eich lluniau ar Twitter gan ddefnyddio **#HafHwyl** fel ein bod ni'n gallu gweld eich holl syniadau a gweithgareddau difyr.




# Gweithgaredd Ychwanegol



## Llyfr Erthygl 31 Haf o Hwyl



Rydyn ni'n creu e-lyfr (llyfr gallwch chi edrych arno ar gyfrifiadur), i rannu rhai syniadau difyr ar gyfer gêmiau a gweithgareddau y gallai plant a phobl ifanc eu gwneud yn ystod Gwyliau'r Haf.



Os hoffech chi gymryd rhan, gofynnwch i'r disgyblion yn eich ysgol chi **lenwi'r daflen "Dwi'n Hoffi Chwarae"** a'i hanfon yn ôl aton ni drwy e-bost i [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk) **neu lenwi ein ffurflen ar-lein.**



Byddwn ni'n rhoi eich holl syniadau at ei gilydd mewn un llyfr.

